END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHYWDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

**Scroll down for the English version**



# Bwletin Gwybodaeth Hydref 2020

Croeso i fwletin misol ar gyfer Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru

Mae'r bwletin yn amlygu'r holl newyddion a pholisi diweddaraf o Gymru a'r DU sy'n

ymwneud â threchu tlodi a gwella symudoledd cymdeithasol.

Os hoffech gyfrannu unrhyw beth at y bwletin, cysylltwch

â karen.mcfarlane@childreninwales.org.uk

Os hoffech dderbyn yr e-friffiad yma yn uniongyrchol, cysylltwch a:

info@childreninwales.org.uk

Children in Wales
Plant yng Nghymru

## Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Taclo Tlodi Tanwydd 2020 – 2035

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu eich barn ar eu cynllun i gefnogi pobl sy’n cael trafferth gyda chost eu biliau tanwydd. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar 31 Rhagfyr 2020.

Mae rhagor o wybodaeth, a manylion ynghylch sut mae cyflwyno eich barn, ar gael **yma.**

---

## Rhag ofn eich bod chi heb ei weld: Canlyniadau arolwg Plant yng Nghymru ym mis Awst 2020: COVID-19 a'r effaith ar deuluoedd incwm isel a difreintiedig

Cyn dechrau pandemig y Coronafeirws, roedd dros 1 o bob 4 plentyn yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Roedd pobl o rai grwpiau ethnig, plant, pobl anabl, rhieni sengl, gofalwyr, pobl oedd yn byw mewn tai preifat ar rent neu'n gweithio mewn rhai sectorau, i gyd yn fwy tebygol o brofi tlodi. Ers mis Mawrth 2020, mae tystiolaeth a gafwyd o waith ymchwil a wnaed gan nifer o sefydliadau yng Nghymru wedi awgrymu bod lefelau tlodi plant wedi codi ac y bydd hynny'n parhau o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig. Roedd ein harolwg yn ceisio darganfod sut mae'r Coronafeirws wedi effeithio ar deuluoedd incwm isel a difreintiedig. O ystyried y gwaith ymchwil helaeth sydd eisoes wedi digwydd yng Nghymru, ein nod oedd llenwi'r bylchau yn ein gwybodaeth, yn benodol ynghylch ansicrwydd bwyd; cynhwysiad digidol; ac incwm a chyflogaeth, a defnyddio'r canfyddiadau i lywio newid polisi yng Nghymru. Gallwch ddarllen yr adroddiad cyfan yma: **COVID and Families Report Final**

---

## Yr wybodaeth reoli ddiweddaraf ynghylch prentisiaid yng Nghymru a roddwyd ar ffyrlo neu a ddiswyddwyd yn ystod pandemig y coronafeirws hyd at 25 Medi 2020.

**Mae rhagor o wybodaeth yma.**

---

## Gofal, Tlodi a'r Coronafeirws yng Nghymru - papur briffio gan Oxfam Cymru - Medi 202

Mae'r papur hwn yn edrych ar y cysylltiadau rhwng tanbrisio gwaith gofal yng Nghymru ac argyfwng tlodi cynyddol ar sail rhywedd. Mae'n rhan o gasgliad o bapurau a gynhyrchwyd i lywio trafodaeth gyhoeddus yng Nghymru, ar draws y Deyrnas Unedig, ac o amgylch y byd.

Mae'n disgrifio sut y mae menywod yn darparu'r gwaith gofal mwyaf, am dâl a di-dâl, yng Nghymru, ac yn archwilio'r heriau y mae pobl â gwahanol fathau o gyfrifoldebau gofal yn eu hwynebu. Mae hefyd yn manylu ar y dystiolaeth sy'n dod i'r golwg ynghylch effaith y coronafeirws, ac yn argymell bod llunwyr polisïau yn rhoi mwy o werth ar ofal ac yn buddsoddi mwy ynddo.

**Cewch ddarllen y papur llawn yma.**

---

## Lansio cynllun yng Nghymru i helpu tenantiaid y mae'r coronafeirws wedi effeithio arnyn nhw.

Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James, wedi cyhoeddi bod cynllun newydd gwerth £8 miliwn o Fenthyciadau Achub Tenantiaeth yn cael ei lansio gan Lywodraeth Cymru i helpu tenantiaid sy'n cael trafferth gydag ôl-ddyledion rhent oherwydd y coronafeirws.

Dyma'r cynllun cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig, a bydd y Benthyciadau Achub Tenantiaeth yn agored i denantiaid sector rhentu preifat sydd ag ôl-ddyledion rhent a'r rhai

a allai gael trafferth talu rhent yn y misoedd i ddod o ganlyniad i'r coronafeirws; bydd ar agor tan 31 Mawrth 2021.

Rheolir y cynllun gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), a bydd y benthyciadau'n cael eu darparu gan saith Undeb Credyd ledled Cymru.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.**

---

### Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi adroddiad newydd.

Goblygiadau Brexit o ran Incwm Aelwydydd.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.**

---

### A oes angen i Gymru fod â mwy o reolaeth dros y system fudd-daliadau?

Dywedir yn aml mai 'proses yw datganoli, nid digwyddiad', ond a ddylai nawdd cymdeithasol fod yn rhan o'r broses honno? Cyfeirir at y system fudd-daliadau yn aml fel maes addas ar gyfer datganoli pellach, ond ymddengys bod Llywodraeth Cymru yn anghytuno

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.**

---

### £420,000 i sicrhau prydau ysgol am ddim i ddysgwyr sy'n hunanwarchod neu'n hunanynysu

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob disgybl sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn parhau i'w derbyn os ydynt yn hunanwarchod neu'n gorfod hunanynysu, diolch i £420,000 a gadarnhawyd gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.**

---

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Diweddarwyd y Mynegai ddiwethaf yn 2019, ac mae'n graddio ardaloedd bach yng Nghymru yn ôl eu lefelau cymharol o amddifadedd lluosog. Mae amrywiaeth o ddangosyddion yn cyfrannu at y mynegai.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.**

---

## Newyddion o'r Deyrnas Unedig

### Sefydliad Joseph Rowntree: Cyllideb yr Hydref – pam mae'n rhaid i ni gadw'r £20 o nawdd cymdeithasol sy'n gallu cynnal bywyd

Mae Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) wedi cyhoeddi ei argymhellion ynghylch y cynnydd o £20 yr wythnos i'r Credyd Cynhwysol a Chredyd Treth Gweithio, sydd i fod i ddod i ben ym mis Ebrill 2021. Mae JRF yn amlygu sut mae'r £20 ychwanegol yr wythnos wedi bod yn gynhaliaeth i lawer, a sut mae dod ag ef i ben ym mis Ebrill yn debygol o dynnu 700,000 o bobl i dlodi. Amcangyfrifir bod 16 miliwn o bobl mewn teuluoedd a fydd yn teimlo colled o £1,040 y flwyddyn dros nos, a bydd hynny'n ergyd anghymesur i'r rhai ar yr incwm isaf a theuluoedd â phlant.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.**

---

### Cyfleoedd i Blant, Buttle UK: Cyflwr Tlodi Plant 2020, Adroddiad Llawn

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg unigryw ar effaith pandemig COVID-19 yng nghartrefi rhai o'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yn y Deyrnas Unedig. Cynhaliwyd yr astudiaeth ansoddol hon gyda bron 1000 o weithwyr rheng flaen ar draws y wlad ar yr adeg pan ddechreuodd y cyfyngiadau symud gael eu llacio ym mis Mehefin 2020, ac mae wedi'i seilio ar arolwg o weithwyr cymorth sydd wedi bod yn rhyngweithio â theuluoedd yn feunyddiol ar hyd yr argyfwng.

**Mae'r adroddiad llawn i'w weld yma.**

---

### Achub y Plant: Teuluoedd mewn trafferth yn suddo ymhellach i ddyled wrth i fwy na thraean ohonynt droi at elusen i fwydo a dilladu plant

Mae arolwg graddfa fawr o deuluoedd ar Gredyd Cynhwysol a Chredyd Treth Plant yn canfod bod 38% wedi cael eu gorfodi i ddibynnu ar help gan elusennau i gael bwyd a dillad yn ystod y ddau fis diwethaf, tra bod 60% wedi mynd i ddyled. Ar gyfartaledd, bu teuluoedd yn benthyg mwy na £1,700 yn ystod y ddau fis diwethaf yn unig.

Mae dros draean (38%) o'r teuluoedd dan bwysau wedi cael eu gadael mewn sefyllfa waeth fyth gan y pandemig, gyda 27% yn dweud bod fforddio bwyd yn anoddach nawr nag ym mis Ebrill, hyd yn oed.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.**

---

### Prosiect Newydd: Covid Realities

Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng prifysgolion Caerefrog, Birmingham a'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, ac mae'n cael ei ariannu gan Sefydliad Nuffield.

Mae'r prosiect yn gweithio'n uniongyrchol gyda rhieni a gofalwyr i ddarganfod sut brofiad yw bywyd mewn gwirionedd i deuluoedd sy'n cael trafferth cadw dau ben llinyn ynghyd yn ystod y pandemig, ac yn partnera gyda nhw er mwyn datblygu a chynnig argymhellion ar gyfer newid i lunwyr polisi.

Mae COVID Real yn awyddus i weithio gyda rhieni a gofalwyr sydd â phlant o dan 19 oed. Gall pobl ymuno trwy fewngofnodi i wefan y prosiect, lle gallan nhw adael cofnod dyddiadur, neges sain neu fideo ynghylch sut maen nhw'n ymdopi, a rhannu eu syniadau ar gyfer newid.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.**

---

### Ystadegau ar y Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws a'r Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth: hyd at 31 Awst 2020

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) wedi cyhoeddi nifer yr hawliadau a wnaed i'r Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws (CCSC) a'r Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth (CCIH) hyd at 31 Awst 2020.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.**

---

# Information Bulletin October 2020

Welcome to the monthly bulletin for the End Child Poverty Network Cymru.

The bulletin includes the latest news and policy from Wales and the UK relating to tackling poverty and improving social mobility.

If you have anything you'd like to contribute to the bulletin, please contact

karen.mcfarlane@childreninwales.org.uk

If you would like to receive this e-briefing directly, please contact: info@childreninwales.org.uk

Children in Wales
Plant yng Nghymru

## Welsh Government Consultation: Tackling Fuel Poverty 2020 –2035

The Welsh Government welcomes your views on their plan to support people struggling with the cost of their fuel bills. This consultation closes on December 31st 2020.

Find out more, and how to submit your views, **here.**

---

## In case you missed it: Results from Children in Wales' August 2020 survey: COVID-19 and the impact on low income and disadvantaged families

Prior to the start of the Coronavirus pandemic, over 1 in 4 children in Wales were living in poverty. People from certain ethnic groups, children, disabled people, single parents, carers, those living in private rented housing or working in certain sectors were all more likely to experience poverty. Since March 2020, evidence gained from research conducted by a number of organisations in Wales, has suggested that levels of child poverty have and will continue to rise as a direct result of the pandemic.

Our survey sought to find out how Coronavirus has impacted on low income and disadvantaged families, and given the extensive research that has already been undertaken in Wales, our aim was to fill the gaps in our knowledge, specifically around food insecurity; digital inclusion; and income and employment and to use the findings to inform policy change in Wales. To read the full report, please click here: **COVID and Families English Report Final**

---

## Coronavirus: The economic impact across different parts of Wales

Just as different parts of the UK will see different economic impacts from the coronavirus pandemic, this is also the case for different areas within Wales.

This article looks at what data for local authorities can tell us about how different parts of Wales are being affected in terms of unemployment, workers being furloughed, available job vacancies, temporary business closures in 'shutdown sectors', and reductions in economic output.

**Find the full article here**

---

## Management information update on apprentices in Wales furloughed or made redundant during the coronavirus pandemic up to 25 September 2020.

**Find out more here.**

---

## Care, Poverty and Coronavirus in Wales - Oxfam Cymru briefing paper – September 2020

This paper explores the links between the undervaluing of care work in Wales and a growing gendered poverty crisis. It is part of a suite of papers produced to inform public debate in Wales, across the UK, and around the world. It outlines how women provide most paid and unpaid care work in Wales, and examines challenges faced by those with different types of caring responsibilities. It also details emerging evidence on the impact of the Coronavirus, and makes recommendations for policy makers to better value and invest in care.

**Read the full paper here**.

---

## Scheme to help tenants affected by coronavirus launches in Wales.

A new £8 million Welsh Government Tenancy Saver Loan scheme to help tenants struggling with rent arrears due to coronavirus launched Minister for Housing and Local Government Julie James announced.
First of its kind in the UK, the Tenancy Saver Loan scheme will be open to private rented sector tenants in rent arrears and those who may also struggle to pay future months' rent as a result of coronavirus; it will be open until March 31st 2021.

Managed by Wales Council for Voluntary Action, the loans will be provided by seven Credit Unions across Wales.

**Find out more here.**

---

## Wales Centre for Public Policy publish new report

The Implication of Brexit on Household Incomes.

**Find out more here.**

---

## Senedd Research: Does Wales need more control over the benefits

### system?

It is often said that 'devolution is a process, not an event', but should social security be a part of that process? The benefits system is often cited as an area ripe for further devolution, but the Welsh Government appears to disagree.

Find out more here.

---

### £420,000 will ensure access to free school meals for learners shielding or self-isolating

The Welsh Government will ensure all pupils entitled to free school meals will continue to receive provisions if they are shielding or have to self-isolate thanks to £420,000 of funding confirmed by Education Minister Kirsty Williams.

Find out more here.

---

### Welsh Index of Multiple Deprivation

The latest update of the WIMD ranks was in 2019. The index ranks small areas in Wales according to their relative levels of multiple deprivation. A range of indicators underlie the index ranks.

Find out more here.

---

## News from the UK

### Joseph Rowntree Foundation: Autumn Budget - why we must keep the £20 social security lifeline

Joseph Rowntree Foundation has published its recommendations surrounding the £20 per week uplift to Universal Credit and Working Tax Credit, which is due to end in April 2021. JRF highlights how the extra £20 per week has been a lifeline to many, and how ending it in April will likely pull 700,000 people into poverty. It is estimated that 16 million people are in families that will feel an overnight loss of £1,040 per year, disproportionately hitting those on the lowest incomes and families with children.

Find out more here.

---

### Chances for Children, Buttle UK: The State of Child Poverty 2020, Full Repor

This report provides a unique insight into the impact of the COVID-19 pandemic inside the homes of some of the most vulnerable families in the UK. This qualitative study of nearly 1000 nationwide frontline workers was carried out at the point lockdown restrictions started being lifted in June 2020 and is based on a survey of support workers who have been interacting daily with families throughout the crisis.

Find the full report here.

## Save The Children: Struggling families sink deeper into debt as more than a third turn to charity to feed and clothe children

Large-scale survey of families on Universal Credit and Child Tax Credit finds 38% have been forced to rely on help from charities for food and clothes in the past two months, while 60% have gone into debt. On average, families borrowed over £1,700 in the last two months alone.

More than a third (38%) of hard-pressed families have been left even worse off by the pandemic, with 27% reporting that they're finding it even harder to afford food now than in April.

Find out more here.

## New Project: Covid Realities

The project is a partnership between the universities of York, Birmingham and Child Poverty Action Group, and is funded by the Nuffield Foundation.

The project works directly with parents and carers to find out what life is really like for families who are struggling to make ends meet during the pandemic, and to partner with them to develop and put forward recommendations for change to policy makers.

COVID Realities is looking to work with parents and carers who have children under the age of 19. People can get involved by logging onto the project website, where they can leave a diary entry, audio or video message about how they're managing, and share their ideas for change.

Find out more here.

## Coronavirus Job Retention Scheme and Self-Employment Income Support Scheme statistics: up to 31 August 2020

HM Revenue and Customs (HMRC) have published the number of claims made to the Coronavirus Job Retention Scheme (CJRS) and the Self-Employment Income Support Scheme (SEISS) up to 31 August 2020.

Find out more here.